



Rheoli Perfformiad a'ch Cyflog yn 2017/18

Y Safonau Proffesiynol Newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

Er nad yw'r broses rheoli perfformiad wedi newid, efallai eich bod yn ymwybodol bod y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (SAG) yn mynd i gael eu disodli gan Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (y safonau newydd).

Ni fydd y safonau newydd yn dod yn orfodol i athrawon hyd fis Medi 2018 (heblaw i athrawon newydd gymhwyso sy'n cychwyn eu cyfnod ymsefydlu ym mis Medi 2017).

Mynegodd NASUWT amheuan difrifol am adeiladwaith a hygyrchedd y safonau proffesiynol newydd ac, er bod rhywfaint o gynnydd yn amlwg, cyngorir aelodau'n gryf i wrthsefyll unrhyw gamau i weithredu'r safonau newydd yng nghylchred rheoli perfformiad 2017/18.

Yr athrawon unigol sydd i benderfynu a ydynt am ddefnyddio'r safonau newydd ar gyfer y cylchred RhP eleni ac ni all ysgolion eu gorfodi.

Cylchred Rheoli Perfformiad 2017/18

Rhaid cynnal cyfarfod adolygu ar ddiwedd y cylchred presennol, neu'n agos at ei ddiwedd, er mwyn trafod canlyniad y broses.

Gellir cynnal y cyfarfod hwn ar yr un pryd â'r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylchred nesaf, ond mae'n rhaid iddo fod yn gyfarfod sy'n benodol ac yn hollol ar wahân ac mae'n rhaid ei gynnal cyn y cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylchred nesaf.

Ni ddylech ganiatáu i'r cyfarfod adolygu ar gyfer y cylchred presennol a'r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylchred nesaf gael eu cyfuno.

Ni ddylech fwrw ymlaen â'r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylchred nesaf os ydych yn anghytuno gyda chanlyniad y cyfarfod adolygu.

Y Cyfarfod Adolygu

Prif bwrpas y cyfarfod adolygu yw asesu i ba raddau yr ydych wedi cyflawni eich amcanion a gofnodwyd ar y cofnod cynllunio ar ddechrau'r cylchred.

Fodd bynnag, mae gofyn hefyd i'ch gwerthuswr: *'...roi argymhelliad i'r prifathro/brifathrawes am ddatblygiad cyflog, gan ystyried datganiad gwerthuso'r athro/athrawes ysgol'*.^[1] Rhaid i'r argymhelliad hwn gael ei drafod yn y cyfarfod adolygu a rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Gwerthuso.

Os ydych yn anghytuno gyda'r argymhelliad, mae'n rhaid i chi ofyn i'ch gwerthuswr gofnodi eich pryderon ar y datganiad gwerthuso a dangos eich bwriad i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Ni ddylech drafod y mater ymhellach gyda'ch gwerthuswr neu unrhyw aelod o'r uwch dîm rheoli, gan gynnwys eich pennaeth.

Ni ddylech fwrw ymlaen â'r cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylchred newydd.

Y Cyfarfod Cynllunio

Gall y cyfarfod cynllunio ar gyfer y cylchred newydd ddigwydd yn syth ar ôl y cyfarfod adolygu ar yr amod eich bod wedi derbyn canlyniad y cyfarfod adolygu. Pwrpas y cyfarfod cynllunio yw cynllunio'r broses werthuso, paratoi ar ei chyfer a cheisio cytuno ar amcanion gyda'ch gwerthuswr.

Os na ellir dod i gytundeb, bydd gofyn i'ch gwerthuswr: '*...wneud cofnod ysgrifenedig o'r amcanion y mae'r gwerthuswr yn eu hystyried yn briodol...*' a chewch '*...ychwanegu sylwadau ysgrifenedig*'.^[2]

Rhaid i'ch gwerthuswr gynhyrchu cofnod o'r cyfarfod cynllunio. Mae'r ddogfen hon yn gyfrinachol i chi a'ch gwerthuswr. Rhaid iddo gynnwys:

- eich amcanion;
- unrhyw anghenion ac adnoddau hyfforddi a datblygu sydd eu hangen i'ch helpu i gyflawni eich amcanion;
- y gweithdrefnau ar gyfer monitro'r cynnydd tuag at gyflawni eich amcanion;
- unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar unrhyw rai o'r materion hyn, os na cheir cytundeb.

Ni ddylech gytuno i fwy na thri amcan ac ni ddylai'r rhain gael eu rhannu'n nifer o is-adrannau.

Ni ddylech gytuno i gynnwys unrhyw dargedau rhifol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r disgyblion yn eich amcanion, oherwydd byddai hyn yn cyflwyno system o 'dal yn ôl y canlyniadau' nad oes lle iddo yn y broses rheoli perfformiad.

Ni ddylech gytuno i fwy nag un arsylwad gwrs bob tymor, ac ni ddylai unrhyw arsylwad bara'n hirach nag awr.

Dylech nodi'n glir y bydd y cofnod o'r cyfarfod cynllunio'n parhau'n gyfrinachol i chi a'ch gwerthuswr.

Dylech nodi'n glir na fydd eich amcanion yn atebol i fetu gan eich pennaeth.

Dylai polisi a gweithdrefn yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad gydymffurfio'n llawn gyda darpariaethau Rhestr Wirio NASUWT Cymru ar gyfer Gwerthuso/Rheoli Perfformiad, sydd ar gael ar: www.nasuwt.org.uk/performance-management.

Mae NASUWT wedi cynhyrchu llawlyfr i athrawon ar Werthuso/Rheoli Perfformiad sydd ar gael i'w ddarllen ac i'w lawrlwytho ar: www.nasuwt.org.uk/performance-management. Gallwch ofyn am gopïau mewn print gan Ganolfan Genedlaethol NASUWT Cymru.

OS OES GENNYCH UNRHYW BRYDERON YNGLŶN Â'R MATERION A AMLYGWYD YN Y PAPUR BRIFFIO YMA:



029 2054 6080

E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

[1] Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011, rheoliad 31(3)

[2] Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011, rheoliad 26(4)